GIG CYMRU NHS WALES | Staff Nyrsio Nurse Staffing

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016:

Canllawiau Gweithredol

Wardiau Pediatrig i Gleifion Mewnol

Cynnwys

Rhagair 4
Crynodeb Gweithredol 5
Trosolwg 6
Cyflwyniad 6
Rhestr Termau....6
Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)? 9
Rolau a chyfrifoldebau....10
Bwrdd 10
Person dynodedig....10
Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol....11
Cyfarwyddwr Gweithrediadau....11
Cyfarwyddwr Cyllid 11
Strwythur rheoli nyrsio 11
Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward....12
Nyrs gofrestredig 12
Cyfrifo lefel staff nyrsio....12
Pa wardiau sy'n cael eu cynnwys o dan adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf?....12
Beth yw'r dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu lefel y staff nyrsio?....13
Pa ffynhonnell o wybodaeth o fewn y triongli sydd bwysicaf? 14
Sut rydym yn triongli'r dystiolaeth?....14
Beth yw'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth? 15
Beth yw barn broffesiynol? 15
Beth yw'r dangosyddion ansawdd? 18
Sut rydw i'n mesur lefelau aciwtedd cleifion? 19
Cymryd rhan yn yr archwiliad ddwywaith y flwyddyn 20
Sut mae cyfrifiad lefel y staff nyrsio yn cael ei gofnodi? 20
Pryd mae cyfrifo lefel y staff nyrsio yn cael ei wneud? 20
Beth yw'r rhesymau dros ystyried ail-gyfrifo Lefel y Staff Nyrsio?....21
Cynnal lefel y staff nyrsio 22
Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gynnal lefel y staff nyrsio?....22
Camau cenedlaethol....22
Camau corfforaethol strategol....22
Camau gweithredol....22
Beth ddylid ei gynnwys yn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd? 23

Pa gofnodion sy'n gysylltiedig â chynnal lefel y staff nyrsio sydd eu hangen? 23
Sut bydd staff yn gwybod eu bod yn gwneud yr hyn sydd angen ei wneud i gyfrannu at gynnal lefel y staff nyrsio? 23
Beth sy'n digwydd os nad yw lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?.....24
Sut rydym yn hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio?.....25
Atodiadau.....26
Atodiad 1: Canllawiau statudol (Fersiwn 2) 26
Atodiad 2: Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.....27
Atodiad 3: Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (Rhifyn 1).....28
Atodiad 4: System Monitro Gofal Iechyd - Canllaw 'Sut i'.....29
Atodiad 5: Ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo 30
Atodiad 6: Cofnod o ddull trionglog o adolygu lefel y staff nyrsio – templed cyfrifo 32
Atodiad 7: Gofynion o fewn y Fframwaith Gweithredu.....33
Atodiad 8: Cwestiynau cyffredin i staff mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol.....34
Atodiad 9: Templed i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio.....37
Atodiad 10: Cwestiynau cyffredin i Blant a Phobl Ifanc.....38
Atodiad 11: Cwestiynau cyffredin i Rieni a Gofalwyr 39
Atodiad 12: Cwestiynau cyffredin hawdd eu darllen i gleifion .....**Error! Bookmark not defined.**

Gwybodaeth am y ddogfen

Teitl Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016: Canllawiau Gweithredol Pediatrig
Fersiwn: Fersiwn 1
Dyddiad: Mehefin 2021
Dyddiad Adolygu: Mai 2022

Rhagair

Mae wedi bod yn bum mlynedd ers i Gymru ddod y wlad gyntaf yn Ewrop i ddeddfu ar lefelau staff nyrsio. Mae ein nyrsys wedi cael tair blynedd o roi *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016* ar waith ar ein wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion. Mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym, heb os, fod cael y nifer cywir o nyrsys cofrestredig a'r gymysgedd iawn o sgiliau yn lleihau marwolaethau ymhlith cleifion ac yn gwella canlyniadau i gleifion. Mae sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel o ansawdd uchel wrth wraidd pam ein bod wedi cefnogi cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Wrth ymestyn yr ymrwymiad hwnnw, pasiwyd *Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021* yn Senedd Cymru ym mis Chwefror, sy'n golygu, o fis Hydref 2021, bydd wardiau pediatrig i gleifion mewnol yng Nghymru yn dod o dan yr un dyletswyddau â wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion.

Mae'r canllaw gweithredol anstatudol hwn wedi'i ddatblygu fel llawlyfr i staff y GIG o lefel ward i lefel bwrdd, gan atgyfnerthu cynnwys y canllawiau statudol (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017) yn fwy manwl. Mae pwyslais y canllawiau ar adrannau 25B a C o'r Ddeddf (cyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio), fodd bynnag, mae manylion ar adrannau 25A ac E (ystyried darparu nyrsys digonol ym mhob lleoliad ac adrodd ar lefel y staff nyrsio) yn cael eu cynnwys lle maen nhw'n gorgyffwrdd. Bydd yn caniatáu i sefydliadau'r GIG weithredu'r ddyletswydd benodol i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio mewn wardiau pediatrig I gleifion fel y nodir *yn Neddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016*.

Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i gael ei phrofi, ei hadolygu a'i mireinio bob blwyddyn yn seiliedig ar eich profiadau chi, y nyrsys a fydd yn defnyddio'r ddogfen o ddydd i ddydd.

Gareth Howells
Prif Swyddog Nyrsio Dros Dro (Cymru)/Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru
Mehefin 2021

Crynodeb Gweithredol

Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) i rym ym mis Mawrth 2016, a'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau ledled GIG Cymru gyfrifo a monitro nifer y nyrsys sy'n ofynnol i ofalu am gleifion yn sensitif. Cynlluniwyd y Ddeddf er mwyn gallu ei gweithredu fesul cam, gan ddechrau gyda Wardiau Meddygol a Llawfeddygol Acíwt i Oedolion ym mis Ebrill 2018. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd y bydd ail ddyletswydd y Ddeddf yn cwmpasu wardiau pediatrig i gleifion mewnol ym mis Hydref 2021.

Helpodd Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i lywio'r broses o gynhyrchu'r Ddeddf ar ôl arwain datblygiad y cysyniadau, y dulliau a'r adnoddau angenrheidiol i ragweld lefelau staff nyrsio yn ystod y 5 mlynedd flaenorol. Cafodd y gwaith paratoi pwysig hwn ei ffurfioli yn 2016 wrth sefydlu Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, a gynlluniwyd i gefnogi GIG Cymru i weithredu'r Ddeddf.

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Canllawiau Statudol gofynnol i roi gwybodaeth ychwanegol i helpu i gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf. Cafodd y Canllawiau eu hadolygu a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2021 i gynnwys wardiau Pediatrig i Gleifion Mewnol. Mae'r Canllawiau hyn yn disgrifio'n fanylach y cysyniadau, y dulliau a'r adnoddau i'w defnyddio wrth gyfrifo lefelau staff nyrsio. Mae'r Canllawiau hefyd yn rhagnodi dull trionglog i ddod â thair ffynhonnell wybodaeth hanfodol at ei gilydd y mae'n rhaid eu hystyried i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer cyfrifo. Disgwylir i bob ward sy'n cymryd rhan gynnal y broses driongli bob 6 mis, adolygu lefel y staffio a chytuno ar y drefn sydd ei hangen. Mae'r broses hon yn cael ei llywodraethu gan aelod dynodedig o'r Bwrdd a fydd yn ei dro yn adrodd am gydymffurfiaeth â'r Ddeddf i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

Cyrhaeddodd Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan garreg filltir ym mis Tachwedd 2020 gyda chyhoeddi'r Rhifyn Cyntaf o Lefelau Gofal Pediatrig Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn i staff nodi lefelau anghenion pob claf unigol. Defnyddir Lefelau Gofal Pediatrig Cymru fel rhan o Archwiliadau Staff Nyrsio ddwywaith y flwyddyn, sef y brif broses o adolygu a chyfrifo lefelau staff nyrsio.

Mae'r Canllawiau Gweithredol hyn wedi'u datblygu a'u cynllunio i roi cyngor i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan ar ddefnyddio Lefelau Gofal Pediatrig Cymru yn yr archwiliadau ddwywaith y flwyddyn, dadansoddi'r canlyniadau ac ymgymryd â'r triongli i gyfrifo ac adrodd ar lefelau staff nyrsio. Dylid defnyddio'r ddogfen hon i helpu byrddau iechyd wrth adolygu eu fframwaith gweithredu a pharhau i gefnogi gweithredu'n lleol.

Bydd canllawiau ar ofynion adrodd byrddau iechyd o dan y Ddeddf yn cael eu cyhoeddi ar wahân.

Greg Dix
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg

Trosolwg

Cyflwyniad

Datblygwyd y canllaw gweithredol hwn gan weithgor ar ran Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan. Wrth ei ddatblygu, roedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd drwy ymgynghori â Chyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio ac aelodau Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan.

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu canllawiau i'r holl staff sy'n gweithio o fewn GIG Cymru sydd â chyfrifoldebau o dan adrannau 25B a 25C o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Fodd bynnag, wrth arfer eu cyfrifoldebau, rhaid i'r Bwrdd ystyried a rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd arnynt o dan adran 25A o'r Ddeddf i gael nyrsys digonol i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion yn sensitif, ble bynnag mae gwasanaethau nyrsio yn cael eu darparu.

Dylid darllen y llawlyfr hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- Canllawiau statudol F2 (Atodiad 1) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (Atodiad 2);
- Lefelau Gofal Pediatrig Cymru - Rhifyn 1 (Atodiad 3);
- System Monitro Iechyd Gofal - Canllaw 'Sut i' (Atodiad 4); a
- Fframwaith gweithredu unigol pob bwrdd iechyd.

Yn ogystal ag amlinellu a darparu canllawiau ar gyfrifoldebau pob bwrdd iechyd – yn benodol timau gweithredol, cyllid, gweithlu a sefydliadol a thimau nyrsio - bwriad y llawlyfr hwn hefyd yw cynnig cymorth penodol i dimau nyrsio clinigol sy'n cymryd rhan yn yr ymarfer archwiliad aciwtedd cenedlaethol ar gyfer wardiau pediatrig i gleifion mewnol. O hyn allan, dylid nodi y cyfeirir at Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 fel *y Ddeddf.*

Gan fod Cymru yn gweithredu system TG genedlaethol i alluogi byrddau iechyd/ymddiriedolaethau'r GIG i fodloni gofynion y Ddeddf, bydd y defnydd o System Rheoli Gofal Iechyd yn cael ei disodli gan system TG newydd maes o law, a bydd canllawiau pellach ynglŷn â sut i ddefnyddio'r system newydd yn cael eu hanfon ar wahân.

Rhestr Termau

I helpu staff ac i sicrhau eglurder, lluniwyd rhestr termau. Mae'r geiriau a'r termau a welir yn yr rhestr hon wedi'u tanlinellu drwy weddill y canllawiau gweithredu.

Ward Pediatrig i Gleifion Mewnol	Ardal lle mae cleifion yn derbyn triniaeth weithredol am anaf neu salwch sy'n golygu bod angen naill ai ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol brys neu ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol a drefnwyd ymlaen llaw gan feddyg ymgynghorol neu o dan oruchwyliaeth meddyg ymgynghorol. Bydd cleifion ar y wardiau hyn rhwng 0-17, serch hynny, gall unigolion dderbyn triniaeth hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed mewn ward i

	oedolion sy'n gleifion allanol ar adegau pan fydd barn broffesiynol yn barnu ei fod yn briodol yn seiliedig ar anghenion clinigol tra'n ystyried hefyd y protocolau asesu risg cyfredol yn ogystal â hawl y plentyn / gwarcheidwad i gymryd rhan yn y penderfyniad. Bernir bod cleifion yn derbyn triniaeth weithredol os ydynt yn wynebu ymyriad(au) ar gyfer eu hanaf neu salwch a ragnodir gan y meddyg ymgynghorol a/neu eu tîm, a/neu uwch ymarferwyr.
Rhestr staff ar ddyletswydd	Yn cyfeirio at union nifer a chymysgedd sgiliau staff a oedd ar ddyletswydd, a drefnwyd i ddarparu gofal i gleifion. Ni ddylai personau ychwanegol fel myfyrwyr a phrif nyrsys wardiau/prif nyrsys/rheolwyr gael eu cynnwys yn y rhif hwn.
Person dynodedig	Person sy'n cael ei ddynodi gan y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am gyfrifo lefelau staff nyrsio ar ran y Prif Swyddog Gweithredol/Bwrdd. Dylai'r person dynodedig fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac o statws digon uchel o fewn y bwrdd / ymddiriedolaeth iechyd, fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ar gyfer y Bwrdd.
Hebrwng oddi ar y safle	Sawl gwaith y bydd nyrs a'r staff hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, neu a ddirprwywyd iddynt, yn gorfod hebrwng claf i ysbyty/safle arall.
Hebrwng ar y safle	Sawl gwaith y bydd nyrs a'r staff hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, neu a ddirprwywyd iddynt, yn gorfod hebrwng claf i adran arall o fewn yr ysbyty e.e. apwyntiad OPD neu fynd â'r claf i'r theatr.
Adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth	*Cyfeiriwch at ddiffiniad y rhestr termau ar gyfer Lefelau Gofal Pediatrig Cymru.*
Nyrs	Mae'n cyfeirio at nyrs gofrestredig sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn is-rannau 1 neu 2 o Gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
Lefel y staff nyrsio	Mae lefel y staff nyrsio yn cyfeirio at gyfanswm y nyrsys cofrestredig yn ogystal â nifer y personau sy'n darparu gofal o dan oruchwyliaeth, neu gyflawni dyletswyddau a ddirprwywyd iddynt gan nyrs gofrestredig, e.e. gweithiwr cymorth gofal iechyd (HCSW). Mae lefel y staff nyrsio yn cyfeirio at y drefn sydd ei hangen a'r rhestr staff a gynlluniwyd.
Lefel y staff nyrsio	Mae hyn yn cyfeirio at y swyddi nyrsio hynny o fewn y strwythur rheoli sydd rhwng prif nyrs y ward/prif nyrs a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio.
Aciwtedd cleifion	Yn unol â Lefelau Gofal Pediatrig Cymru, diffinnir aciwtedd fel mesur arddwysedd y gofal nyrsio sydd ei angen ar glaf. Ar gyfer y gwaith hwn, defnyddiwn y term *aciwtedd* fel term cyffredinol sy'n cwmpasu termau eraill fel dibyniaeth, arddwysedd a chymhlethdod i ddisgrifio ehangder y gofal sydd ei angen ar glaf yn seiliedig ar ei anghenion holistig. Mae gan y term *aciwtedd* 2 brif elfen: 1. Difrifoldeb, sy'n nodi statws corfforol a seicolegol y claf; ac 2. Arddwysedd, sy'n nodi'r anghenion nyrsio, cymhlethdod gofal a'r llwyth gwaith cyfatebol sy'n ofynnol gan glaf, neu grŵp o gleifion.
Rhestr staff a gynlluniwyd	Yn cyfeirio at nifer a chymysgedd sgiliau staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg sydd ei angen i alluogi nyrsys i ddarparu gofal i fodloni'r holl

	ofynion rhesymol. Ni ddylai personau ychwanegol fel myfyrwyr a phrif nyrsys ymarfer dan oruchwyliaeth a phrif nyrsys y ward/prif nyrsys / rheolwyr wardiau gael eu cynnwys yn y rhestr staff a gynlluniwyd. Cytunir ar y rhestr staff a gynlluniwyd adeg pennu lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward a'i gymeradwyo gan y person dynodedig.
Barn broffesiynol	Mae barn broffesiynol yn cyfeirio at gymhwyso gwybodaeth, sgiliau a phrofiad mewn ffordd sy'n cael ei llywio gan safonau proffesiynol, y gyfraith ac egwyddorion moesegol i ddatblygu penderfyniad ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau clinigol mewn perthynas â diogelwch cleifion.
Dangosyddion ansawdd	Mae gofyn i fyrddau iechyd ystyried dangosyddion ansawdd sy'n ffordd gadarn o fesur y ffactorau hynny yr ystyrir eu bod yn dangos y canlyniadau ar gyfer cleifion a staff. Mae dangosyddion ansawdd yn adlewyrchu canlyniadau cleifion y bernir eu bod yn sensitif o ran nyrsio.
Gofynion rhesymol	Mae hyn yn cyfeirio at anghenion nyrsio cleifion a'u gweithgareddau beunyddiol fel yr aseswyd gan dîm nyrsio'r ward, gan ystyried anghenion holistig y claf, gan gynnwys gofynion cymdeithasol, seicolegol, ieithyddol, ysbrydol a chorfforol. Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu nodi, eu hasesu a'u dosbarthu drwy ddefnyddio disgrifyddion Lefelau Gofal Pediatrig Cymru.
Pob Cam Rhesymol	Cyfres o gamau cenedlaethol, strategol a gweithredol sydd angen eu gwneud i gynnal lefel y staff nyrsio. Dylid cynnwys y camau hyn o fewn fframwaith gweithredu pob bwrdd iechyd.
Y drefn sydd ei hangen	Nifer y staff i ddarparu adnoddau digonol i ddefnyddio rhestr staff a gynlluniwyd a fydd yn bodloni'r llwyth gwaith disgwyliedig i ddarparu gofal i ddiwallu anghenion nyrsio cleifion ar gyfer yr ardal. Mae hyn yn cynnwys adnodd o 26.9% i gwmpasu holl absenoldebau staff a swyddogaethau eraill sy'n lleihau eu hamser i ofalu am gleifion. Ni ddylai personau ychwanegol fel myfyrwyr a phrif nyrsys wardiau/prif nyrsys/rheolwyr wardiau gael eu cynnwys yn y rhestr staff a gynlluniwyd .
Yn sensitif	Mae hyn yn cyfeirio at nyrsys yn ymatebol ac yn sensitif i newid mewn anghenion gofal. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth bod llesiant ac anghenion gofal nyrsio holistig cleifion wedi'u dylanwadu i raddau helaeth gan y gofal a ddarperir gan nyrs sy'n dangos ymwybyddiaeth o deimladau ac anghenion pobl eraill.
Digwyddiad difrifol	Digwyddiad difrifol yw digwyddiad sy'n arwain at: • farwolaeth annisgwyl neu farwolaeth y gellir ei hosgoi neu niwed difrifol i un neu fwy o gleifion; a/neu • ddigwyddiad "byth".
Pobl ychwanegol	Mae hyn yn cyfeirio at yr aelodau hynny o staff nad ydyn nhw wedi'u cynnwys yn y rhestr staff a gynlluniwyd . Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi na ddylid cynnwys personau fel myfyrwyr, prif nyrsys wardiau/prif nyrsys/rheolwyr ar y rhestr staff a gynlluniwyd.
Triongliant/ Dull triongli	Mae hyn yn cyfeirio at y dull a ddefnyddir wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio. Triongli yw'r dechneg sy'n hwyluso'r broses o ddilysu gwybodaeth o'r tair ffynhonnell ddata ganlynol drwy broses groeswirio:

	• aciwtedd cleifion; • barn broffesiynol; a • dangosyddion ansawdd. Ystyrir data o bob un o'r tair ffynhonnell hyn wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio.
Mynychwyr Ward	Cleifion sy'n mynychu ward am ofal nyrsio neu'n mynychu'n bennaf at ddibenion cael archwiliad neu driniaeth sy'n cynnwys amser nyrsio. Ni fyddai achosion allanol neu gleifion mewnol yn cael eu dosbarthu fel mynychwyr ward (sylwer: gall y diffiniad hwn amrywio o'r diffiniad a ddefnyddir gan systemau gweinyddu cleifion byrddau iechyd).
Lefelau Gofal Pediatreg Cymru	Adnodd a ddatblygwyd o fewn GIG Cymru sydd wedi'i ddilysu i'w ddefnyddio drwy sefydlu sylfaen dystiolaeth o'i gymhwysedd mewn lleoliadau clinigol yng Nghymru ac sydd wedi'i farnu i fod yn addas i'w ddefnyddio gan y Prif Swyddog Nyrsio. Dolen – Lefelau Gofal Pediatrig Cymru

Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)?

Daeth Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gwasanaethau iechyd wneud darpariaeth am lefel briodol y staff nyrsio ble bynnag y caiff gwasanaethau nyrsio eu darparu, ac i sicrhau eu bod yn darparu nyrsys digonol i ganiatáu amser iddynt i ofalu am gleifion yn sensitif. Mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i unrhyw le y mae GIG Cymru yn darparu neu'n comisiynu trydydd parti i ddarparu nyrsys.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys 5 adran:

- Mae 25A yn cyfeirio at gyfrifoldeb cyffredinol byrddau/ymddiriedolaethau iechyd i ystyried darparu nyrsys digonol ym mhob lleoliad;
- Mae 25B yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd gyfrifo a chymryd pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio ym mhob ward meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion, ac o 1af Hydref 2021, wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Mae angen i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd hefyd hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio ar y wardiau hynny;
- Mae 25C yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd ddefnyddio dull penodol i gyfrifo lefel y staff nyrsio ym mhob ward meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a wardiau pediatrig i gleifion mewnol;
- Mae 25D yn berthnasol i F2 o'r canllawiau statudol a ryddhawyd gan Lywodraeth Cymru (Atodiad 1); ac
- Mae 25E yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau/ymddiriedolaethau iechyd adrodd ar eu cydymffurfiaeth wrth gynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion a wardiau pediatrig i gleifion mewnol.

Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r cyfrifoldeb am fodloni gofynion y Ddeddf yn berthnasol i staff ar bob lefel o'r ward i'r bwrdd, gyda'r Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod byrddau iechyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Bwrdd

Wrth arfer eu cyfrifoldebau, rhaid i'r Bwrdd ystyried a rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd arnynt o dan adran 25A o'r Ddeddf i gael nyrsys digonol i ganiatáu amser i'r nyrsys ofalu am gleifion yn sensitif, ble bynnag mae gwasanaethau nyrsio yn cael eu darparu.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i aelodau penodol o'r Bwrdd – y Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Chyllid a Gweithrediadau – o dan adrannau 25B a 25C o'r Ddeddf ddarparu tystiolaeth a barn broffesiynol i'r Bwrdd i gynorthwyo gyda'i benderfyniadau mewn perthynas â chyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd:

- ddynodi person (neu ddisgrifiad o berson) i fod yn gyfrifol am gyfrifo lefel y staff nyrsio mewn lleoliadau lle mae adran 25B o'r Ddeddf yn gymwys;
- pennu pa wardiau sy'n bodloni diffiniadau ward pediatrig i gleifion mewnol.

Person dynodedig

Mae'r person dynodedig wedi'i awdurdodi o fewn fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd i gyfrifo lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol o fewn y bwrdd iechyd ar ran y Prif Swyddog Gweithredol.

Bydd y person dynodedig wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; yn deall cymhlethdodau pennu lefelau staff nyrsio clinigol; ac o statws digon uchel o fewn y bwrdd iechyd.

Mae'r person dynodedig yn gyfrifol am:

- sefydlu'r prosesau a'r amserlen ar gyfer y cylch blynyddol sy'n ofynnol o fewn eu bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth personél nyrsio, cyllid, gweithredol a gweithlu proffesiynol priodol, i hwyluso'r broses o (ail)gyfrifo lefel y staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn;
- cyfrifo nifer y nyrsys cofrestredig - a'r staff hynny sy'n cyflawni dyletswyddau nyrsio o dan oruchwyliaeth neu a dirprwywyd iddynt gan nyrs gofrestredig – sy'n briodol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n bodloni holl ofynion rhesymol wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Gwneir hyn drwy arfer barn broffesiynol wrth gymhwyso'r dull trionglog.
- ymgymryd a chofnodi'r rhesymeg dros y cyfrifiad. Gwneir hyn bob 6 mis o leiaf neu'n amlach os bydd newid yn y defnydd/gwasanaeth sy'n debygol o newid lefel y staff nyrsio neu os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol; a
- chyflwyno'n ffurfiol lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward i'w Bwrdd yn flynyddol yn ogystal â sicrhau bod diweddariad ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd yn

dilyn ail-gyfrif lefel y staff nyrsio ddwywaith y flwyddyn ac ar unrhyw adeg arall y bernir bod ail-gyfrif yn angenrheidiol.

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau statudol uchod, bydd y person dynodedig yn darparu adroddiad blynyddol am lefelau staff nyrsio i'r Bwrdd. Bydd hyn yn llywio'r gofyniad statudol o dan adran 25E o'r Ddeddf i adrodd i Lywodraeth Cymru bob 3 blynedd.

Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol sicrhau bod:

- system effeithiol o gynllunio'r gweithlu ar waith, yn seiliedig ar System Gynllunio Cymru, er mwyn darparu cyflenwad parhaus o'r niferoedd gofynnol o staff;
- bod systemau i sicrhau proses recriwtio staff gweithredol ac amserol (ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol); a
- bod strategaethau effeithiol ar waith ynglŷn â llesiant a chadw staff sy'n ystyried Arolwg Staff GIG Cymru.

Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu fframwaith gweithredu'r sefydliad y bydd ei angen i ddisgrifio'r prosesau sy'n ofynnol i:

- alluogi'r defnydd o nyrsio dros dro (banc neu asiantaeth) sydd â'r sgiliau priodol;
- rheoli'r defnydd dros dro o staff o feysydd eraill o fewn y sefydliad yn effeithiol;
- rheoli'r broses o gau gwelyau dros dro yn effeithiol; a
- darparu canllawiau ynglŷn â phryd y gallai newidiadau i lwybr y claf fel ffordd o gynnal lefelau staff nyrsio gael eu hystyried a'u gweld yn briodol.

Yn ogystal â chael ei ddisgrifio o fewn fframwaith gweithredu byrddau iechyd, dylai'r prosesau hyn gael eu hadlewyrchu hefyd ym mholisi uwch-gyfeirio a chynlluniau parhad busnes y Bwrdd.

Cyfarwyddwr Cyllid

Y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am:

- sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn cael ei chyllido o ddyraniad refeniw y bwrdd iechyd a'i fod yn ystyried union bwyntiau cyflog y staff a gyflogir ar wardiau lle bo adran 25B yn gymwys.

Strwythur rheoli nyrsio

Dylai safbwyntiau'r strwythur rheoli nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol gael eu hystyried gan y person dynodedig pan fyddant yn cyfrifo lefel y staff nyrsio. Dylai hyn gynnwys darparu'r wybodaeth fel yr amlinellir yn y templed cyfrifo cenedlaethol (atodiad 6), sy'n ofynnol i alluogi'r person dynodedig i arfer ei farn broffesiynol wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio.

Ar yr achlysuron prin hynny pan fydd y rhestr staff a gynlluniwyd yn amrywio wrth ymateb i'r sefyllfa glinigol ar draws y system, dylai prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward – ynghyd ag aelodau eraill a nodwyd yn y strwythur rheoli nyrsio - asesu'r sefyllfa yn

barhaus a gwerthuso'r person dynodedig a dylid dilyn unrhyw gamau sy'n ofynnol yn unol â pholisi uwch-gyfeirio'r sefydliad.

Bydd rolau a enwir o fewn strwythur rheoli nyrsio'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am sicrhau defnydd cyson o'r system a roddir ar waith i adolygu a chofnodi pob achlysur pan fydd y nifer o nyrsys a ddefnyddir yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd.

Dylai'r system gofnodi gynnwys mecanwaith i gofnodi'r defnydd o staff dros dro, gan gynnwys staff banc ac asiantaeth; a'r adegau hynny pan gaiff staff nyrsio eu symud dros dro o ddyletswyddau/meysydd clinigol eraill o fewn y sefydliad i gefnogi lefel y staff nyrsio o fewn ward.

Bydd rolau a enwir o fewn strwythur rheoli nyrsio pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am ddilysu a chadarnhau'r data aciwtedd a gesglir ddwywaith y flwyddyn neu'n amlach os bydd angen.

Dylai cyfrifoldebau penodol y rolau a enwir o fewn strwythur rheoli nyrsio pob bwrdd iechyd gael eu hamlinellu yn fframwaith gweithredu'r byrddau iechyd.

Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward

Mae prif nyrs y ward/prif nyrs/ rheolwr y ward yn gyfrifol am asesu anghenion gofal nyrsio holistig y cleifion drwy ddefnyddio Lefelau Gofal Pediatrig Cymru fel adnodd cynllunio'r gweithle sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Dylent hefyd roi eu barn broffesiynol am lefelau staff nyrsio i'r person dynodedig pan fyddant yn cyfrifo lefel y staff nyrsio.

Dylai prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward sicrhau eu bod yn defnyddio'r system a gynlluniwyd gan y byrddau iechyd i adolygu a chofnodi pob achlysur pan fydd nifer y nyrsys a ddefnyddiwyd yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd, a chynnal y system i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio.

Nyrs gofrestredig

Dylai'r nyrs gofrestredig hefyd roi eu safbwyntiau ar lefelau staff nyrsio sydd eu hangen ar gyfer y ward.

Cyfrifo lefel staff nyrsio

Pa wardiau sy'n cael eu cynnwys o dan adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf?

O Hydref 2021, mae adran 25B o'r Ddeddf yn gymwys i wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i wneud rheoliadau i ymestyn y ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio mewn feysydd eraill yn y dyfodol.

Mae'r Canllawiau Statudol yn darparu diffiniadau eang o wardiau pediatrig i gleifion mewnol sef:

- Ardal lle mae cleifion yn derbyn triniaeth weithredol ar gyfer anaf neu salwch sydd angen naill ai ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol brys neu ymyrraeth feddygol neu lawfeddygol brys sydd wedi'i drefnu, a ddarperir gan feddyg neu lawfeddyg ymgynghorol neu o dan oruchwyliaeth meddyg neu lawfeddyg ymgynghorol. Bydd

cleifion ar y wardiau hyn yn 0-17 oed, serch hynny, gall unigolion hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed dderbyn triniaeth mewn ward i oedolion sy'n gleifion mewnol ar adegau pan fydd barn broffesiynol o'r farn ei fod yn fwy priodol yn seiliedig ar anghenion clinigol y claf tra hefyd yn ystyried y protocolau asesu risg cyfredol yn ogystal â hawl y plentyn/gwarcheidwad i fod yn rhan o'r penderfyniad. Bernir bod cleifion yn derbyn triniaeth weithredol os ydynt yn cael ymyrraeth(au) am eu hanaf neu salwch a ragnodwyd gan y meddyg ymgynghorol, a/neu eu tîm, a/neu uwch ymarferwyr.

Mae rhestr o'r mathau o wardiau sydd wedi'u heithrio ar gael yn y canllawiau statudol (Atodiad 1). Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Bydd strwythur rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn cynnig fforwm i alluogi i gymheiriaid adolygu nodweddion wardiau lle ceir ansicrwydd a yw adran 25B yn berthnasol. Mae trafodaethau cychwynnol o fewn y fforwm hwn wedi nodi, lle ceir ansicrwydd o'r fath, bod canolbwyntio ar '**brif bwrpas'** y ward yn cynnig dull defnyddiol o benderfynu a yw ward yn bodloni'r meini prawf cynhwysiant. Mae'n debygol y bydd rhifynnau'r llawlyfr hwn yn y dyfodol yn gallu cynnig mwy o eglurder wrth i'r materion hyn gael eu datblygu'n fanylach. Serch hynny, y bwrdd iechyd unigol sy'n gyfrifol yn y pen draw am bennu pa wardiau sy'n bodloni'r diffiniadau hyn a dylai'r penderfyniadau ynglŷn â pha wardiau i'w cynnwys a'u hepgor gael eu cyflwyno i'r Bwrdd.

Beth yw'r dull cyfrifo a ddefnyddir i bennu lefel y staff nyrsio?

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gyfrifo nifer y nyrsys – a'r staff hynny sy'n ymgymryd â dyletswyddau nyrsio dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig neu a ddirprwywyd gan nyrs gofrestredig - sy'n ofynnol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac i ddiwallu anghenion holistig cleifion ym mhob ward pediatrig i gleifion mewnol.

Defnyddir dull trionglog ar gyfer y cyfrifiad hwn, drwy ddefnyddio tair ffynhonnell wybodaeth i bennu lefel y staff nyrsio sy'n ofynnol. Yn y sefyllfa hon, mae'r wybodaeth drionglog yn ansoddol ac yn feintiol o ran natur (cyfeiriwch at Ffigur 1). Dylai'r dull trionglog gynnwys:

- barn broffesiynol;
- aciwtedd claf - defnyddio'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu lefel y staff nyrsio a fydd yn bodloni gofynion gofal rhesymol; a
- dangosyddion ansawdd – ystyried i ba raddau y mae llesiant claf yn sensitif i ddarpariaeth gofal gan nyrs (h.y. camgymeriadau wrth roi meddyginiaeth, y claf wedi disgyn, briwiau pwyso, anafiadau elifo/ymdreiddiad).

Yn ogystal â'r dangosyddion hyn, gall y person dynodedig ystyried unrhyw ddangosydd arall sy'n sensitif i lefel y staff nyrsio y maent o'r farn eu bod yn briodol ar gyfer y ward lle mae'r cyfrifiad yn digwydd.

Ffigur 1 - Dull trionglog i gyfrifo lefelau staff nyrsio o fewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol.

Mae'n ofynnol i'r person dynodedig ddefnyddio tystiolaeth, drwy ddefnyddio dull trionglog, i bennu lefel y staff nyrsio.

Bydd y person dynodedig yn cyfrifo lefel y staff nyrsio bob 6 mis o leiaf ac yn amlach os yw'r defnydd o'r wardiau yn newid, ac felly'n newid lefel y staff nyrsio, neu os yw'r person dynodedig yn ei ystyried yn angenrheidiol. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a'r rhesymeg a ddefnyddir i bennu lefel y staff nyrsio gael eu cofnodi. Bydd lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol drwy ddefnyddio templed adrodd y cytunwyd arno yn genedlaethol 'Cyflwyniad Blynyddol o Lefel y Staff Nyrsio i'r Bwrdd' (gweler dogfen ar wahân).

Bydd diweddariadau ysgrifenedig yn cael eu darparu i'r Bwrdd os bydd newid i'r defnydd/gwasanaeth wedi arwain at newid yn lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward.

Pa ffynhonnell o wybodaeth o fewn y triongli sydd bwysicaf?

Yn unol â delweddau graffeg y dull trionglog (Ffigur 1), rhoddir yr un pwys i'r holl wybodaeth sy'n llywio'r broses. Mae'r canllawiau'n glir nad oes hierarchaeth a bennwyd ymlaen llaw yn ystod y broses gyfrifo o ran y dystiolaeth. Bydd y person dynodedig yn gwneud y penderfyniad hwnnw ar sail dadansoddiad o'r holl wybodaeth a gesglir am y ward. Er enghraifft, efallai y bydd data aciwtedd yn awgrymu bod ward yn rhy llawn ond bod gan y ward sawl ystafell sengl ac y ceir poblogaeth o gleifion agored i niwed, er enghraifft, plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd/iechyd meddwl cymhleth fel y dangosir gan adolygiad o'r data ansawdd. Byddai'n rhesymol yn yr enghraifft hon i'r farn broffesiynol a'r dangosyddion ansawdd fod y ffactorau pwysicaf wrth bennu lefel y staff nyrsio.

Sut rydym yn triongli'r dystiolaeth?

Dylai'r holl wybodaeth a gasglwyd gael ei hadolygu'n annibynnol ac yna ei dehongli gyda'i gilydd er mwyn cyrraedd penderfyniad gwybodus ynglŷn â lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward.

- Yn gyntaf, ystyriwch y wybodaeth a amlinellir yn y triongli.
    - A oes unrhyw wallau neu hepgoriadau amlwg?
    - A yw'n adlewyrchu darlun teg o'r ward y mae'n sôn amdani?
- Beth mae'r wybodaeth yn ei ddweud?
    - Edrychwch ar y wybodaeth feintiol ac ansoddol a gofynnwch gwestiynau allweddol. Er enghraifft, beth mae'r ddata'n ei ddweud wrthym am lwyth gwaith y ward a'r gymysgedd o sgiliau staff sydd eu hangen?
- Beth yw arwyddocâd y canlyniadau?

- Ar ôl penderfynu a yw'r wybodaeth yn ddibynadwy ac edrych ar yr hyn mae'n ei ddweud, bydd angen i ni benderfynu faint o bwys i roi i'r wybodaeth honno wrth benderfynu. Hynny yw, pa mor bwysig yw'r wybodaeth honno wrth helpu i benderfynu ar niferoedd staffio? Er enghraifft, efallai y bydd ward lle bo mynychwyr ward dyddiol yn fwy sylweddol na nifer fach o friwiau pwyso a gafwyd tra'n yr ysbyty.

- Mae lefel y staff nyrsio i'w bennu drwy ddefnyddio tair ffynhonnell o wybodaeth: barn broffesiynol, aciwtedd cleifion; a dangosyddion ansawdd.
- Dylai'r cyfrifiad gael ei lywio gan y nyrsys cofrestredig o fewn y ward ynghyd â staff o fewn y strwythur rheoli nyrsio ar gyfer y ward.
- Mae'n rhaid i'r person dynodedig wybod y rhesymeg y tu ôl i'r cyfrifiad, rhaid iddo gadarnhau'r cyfrifiad ar sail y flaenoriaeth a roddwyd i'r wybodaeth, a gwneud argymhelliad i'r Bwrdd ynglŷn â lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol.

Beth yw'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth?

Mae adnoddau cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn helpu rheolwyr i benderfynu pa alw fydd am wasanaethau. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrifo pa lefel o staff sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. O ran gofal iechyd, mae'n anodd rhagweld galw, ond mae adnoddau wedi'u datblygu i fesur lefelau aciwtedd cleifion sy'n rhoi syniad o faint o ofal sydd ei angen i fodloni eu gofynion gofal rhesymol. Bydd y wybodaeth hon yn rhan o'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyfrifo lefel y staff nyrsio.

O dan y cyfrifoldebau a amlinellir o fewn y Ddeddf, mae pob bwrdd iechyd wedi cael eu hysbysu gan y Prif Swyddog Nyrsio mai'r adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'w ddefnyddio yw Lefelau Gofal Pediatrig Cymru. Ers 2016, gwnaed gwaith i ddatblygu a phrofi Lefelau Gofal Pediatrig Cymru er mwyn gallu ei ddefnyddio o fewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol i asesu aciwtedd cleifion (Atodiad 3).

Mae'r broses o gasglu data actiwedd ar draws yr holl wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn GIG Cymru yn digwydd yn ddyddiol a chynhelir archwiliadau ddwywaith y flwyddyn ym mis Ionawr a Mehefin o dan gyfarwyddyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio y GIG. Rhagwelir y bydd y mesur aciwtedd hwn yn nodi tueddiadau tymhorol mewn ymateb i ddemograffeg ac anghenion gofal iechyd newidiol. Bydd y wybodaeth hon, pan gaiff ei defnyddio fel rhan o ddull trionglog ochr yn ochr â defnyddio dangosyddion ansawdd a barn broffesiynol, yn pennu lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward.

Beth yw barn broffesiynol?

Mae'n ofynnol i'r person dynodedig arfer ei barn proffesiynol wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio ar gyfer unrhyw ward.

Mae'r Canllawiau Statudol yn disgrifio rhai o'r ystyriaethau y gellir eu hystyried wrth arfer barn broffesiynol, fel y nodir isod. Yn ogystal, i lywio eu penderfyniadau, mae'n ofynnol i'r person dynodedig ystyried canllawiau, egwyddorion, ymchwil, a safonau arfer gorau cyfredol o ran staff nyrsio perthnasol, proffesiynol ac arbenigol.

1) **Cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a phrofiad y nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion.**
Mae hon yn elfen hanfodol sy'n dylanwadu ar niferoedd staffio. Yn ei dro, gall sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau o'r fath gael eu llywio gan safonau arfer gorau fel yr eglurwyd uchod, gyda'r nod o gael y nyrsys o fewn y sefydliad i feddu ar y sgiliau angenrheidiol i ofalu am gleifion yn sensitif ac i fodloni anghenion gofal clinigol penodol eu cleifion. Dylai cynllunio'r gweithlu a'r drefn sydd ei hangen ystyried yr angen i ddarparu gweithlu sydd â lefel briodol o sgiliau a gwybodaeth broffesiynol ac ymarferol sydd â ffocws clinigol. Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y drefn sydd ei hangen yn galluogi'r gweithlu i gyflawni'r lefelau gorfodol o ofynion hyfforddiant sefydliadol. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried cynllunio a chyfrifo'r gweithlu mewn ffordd strwythuredig a manwl o'r adnodd angenrheidiol i gyflawni'r lefelau cymwyseddau gofynnol, yn ogystal â chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol a statudol (e.e. Diogelu, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Cydraddoldeb, hyfforddiant Amrywiaeth a Chynhwysiant, hyfforddiant tân etc.

2) **Effaith staff dros dro ar lefel y staff nyrsio.**
Gall pa mor gyfarwydd y mae aelodau staff â systemau a phrosesau'r ward/sefydliad effeithio ar yr effeithlonrwydd o ran cyflawni eu gwaith a darparu gofal parhaus i gleifion. Felly bydd angen ystyried lefelau swyddi gwag a phatrymau hanesyddol diweddar sy'n ymwneud â defnyddio staff dros dro wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio. Gan fod hon yn sefyllfa a allai newid yn hawdd, efallai y bydd angen ystyried hyn hefyd ar gyfer annog adolygiad o'r drefn y tu allan i'r cylch arferol ddwywaith y flwyddyn.

3) **Effaith ystyriaethau nyrsys ar anghenion diwylliannol cleifion.**
Gall ymateb i arferion diwylliannol neu grefyddol penodol (e.e. wrth ddarparu gofal diwedd oes) gymryd cryn amser. Os oes nifer sylweddol o gleifion â lefelau uwch o anghenion nyrsio holistig yn derbyn gofal ar ward benodol, yna bydd angen i'r person dynodedig allu dangos sut mae wedi ystyried yr anghenion penodol hyn wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio fel y gall tîm ddarparu gofal sensitif i'w holl gleifion.

4) **Amodau tîm aml-broffesiynol deinamig.**
Efallai y bydd angen i anghenion gofal cymhleth, sy'n gofyn am ddull tîm amlddisgyblaethol, ei wneud yn ofynnol i'r tîm nyrsio ymgymryd â chryn dipyn o waith cydlynu gofal anuniongyrchol. Mae'r gwaith hwn yn hollbwysig i sicrhau bod nodau'n cael eu rhannu; a darpariaeth gofal effeithiol a sensitif wrth bob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol, wedi'i ddarparu mewn ffordd amserol. Gall y gwaith cydlynu gofal anuniongyrchol hwn fod yn heriol i'w feintioli ond yn aml mae angen gwneud penderfyniadau medrus ac arbenigol a gall gymryd cryn amser. O'r herwydd, bydd angen i'r person dynodedig ei ystyried yn ofalus.

5) **Effaith bosib cyflwr a chynllun ffisegol ward ar ofal nyrsio.**

Bydd cynllun a nodweddion ffisegol eraill ardal glinigol yn effeithio ar effeithlonrwydd y defnydd o oriau nyrsio sydd ar gael ar unrhyw un adeg. Er enghraifft, os gofelir am gleifion mewn ystafelloedd sengl neu mewn cilfannau gyda sawl gwely, gall ddylanwadu ar nifer y cleifion sy'n gallu cael eu harsylwi a'u cadw'n ddiogel gan un aelod o staff; a gall lleoliad ystafelloedd triniaeth, meddyginiaeth, storio a golchi yn yr ardal glinigol ddylanwadu ar yr amser anghynhyrchiol os bydd rhaid i aelodau staff gerdded pellter hir dro ar ôl tro i gael cyflenwadau hanfodol neu i baratoi meddyginiaethau.

6) **Trosiant cleifion sy'n derbyn gofal a nifer gyffredinol y gwelyau a ddefnyddir.**
Mae'r rhan fwyaf o wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn darparu gofal i gleifion mewnol o fewn grŵp o gleifion sy'n newid yn aml. Gall lefel yr amrywiad o ran natur a'r math o weithgaredd sy'n ychwanegol at ddarparu gofal yn sensitif i'r cleifion sydd yn y gwely fod yn aruthrol ac yn aml mae'n dibynnu ar natur yr arbenigedd. Bydd gan rai wardiau niferoedd uchel o gleifion sy'n dychwelyd i'r ward i gael gwiriad ar ôl eu rhyddhau, gan osgoi aros yn hir yn yr ysbyty wrth gadw cyswllt clinigol/drws agored i'r claf am gyfnod byr ar ôl ei ryddhau. Bydd rhai yn cael triniaeth ar y ward fel dull mwy effeithlon o ofal na threfnu i gael eu derbyn i'r ysbyty ymlaen llaw. Mewn wardiau eraill gall nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn a'u rhyddhau mewn un diwrnod - sy'n cynrychioli cyfnod o reoli gofal dwys a chyfathrebu â'r claf ac yn aml, rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol - fod yn arbennig o uchel.

Er ei fod yn cael ei adlewyrchu i raddau drwy ganfyddiadau archwiliad aciwtedd Lefelau Gofal Pediatrig Cymru, efallai na fydd amrywiadau o'r fath o ran natur a'r math o weithgaredd yn cael eu casglu'n llawn ac felly efallai y bydd angen eu hadlewyrchu yn y farn broffesiynol a gymhwysir gan y person dynodedig.

7) **Gofal a ddarperir i gleifion gan staff neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel gweithwyr cymorth gofal iechyd.**
Bydd natur anghenion gofal cleifion ym mhob maes clinigol yn dylanwadu ar y niferoedd a'r gymysgedd sgiliau – gan gynnwys gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau – lefel y staff nyrsio. At hynny, gall cyfrifoldebau staff o dimau eraill o fewn gweithlu'r ysbyty (e.e. therapi chwarae, cyfleusterau gwesty, porthorion, cofnodion meddygol) effeithio ar y dyletswyddau y mae'n ofynnol i dîm nyrsio'r ward eu cyflawni er mwyn sicrhau y darperir gofal sensitif. Yna gall hyn effeithio ar lefel y staff nyrsio y bydd y person dynodedig yn ei gyfrifo.

8) **Unrhyw ofynion a bennir gan reoleiddiwr i gefnogi myfyrwyr a dysgwyr.**
Mae sicrhau amgylchedd dysgu cadarn i fyfyrwyr gofal iechyd proffesiynol a gomisiynwyd yn gyfrifoldeb sy'n flaenoriaeth i'r GIG yng Nghymru. Drwy'r llwybr hwn y bydd y gofal a roddir yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan nyrsys addysgedig a medrus sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, a fydd ar gael mewn niferoedd digonol i fodloni gofynion gweithlu GIG Cymru. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd creu amgylchedd dysgu lle gellir neilltuo amser i addysgu, goruchwylio a mentora myfyrwyr. Dylai myfyrwyr a dysgwyr fod wedi cwblhau hyfforddiant ar

Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ochr yn ochr â gofynion hyfforddi gorfodol. Dylai nifer y lleoliadau i fyfyrwyr a glustnodwyd ym mhob maes clinigol fod yn ystyriaeth bwysig wrth gyfrifo lefelau staff nyrsio i sicrhau y gellir cefnogi pob myfyriwr yn ddigonol yn ymarferol.

9) **I ba raddau y mae'n ofynnol i nyrsys sy'n darparu gofal gyflawni swyddogaethau gweinyddol.**
Fel Adran 7 uchod, bydd cwmpas y cyfrifoldebau sydd o fewn y tîm nyrsio yn dylanwadu ar nifer a chymysgedd sgiliau'r drefn sydd ei hangen. Mae'n bwysig bod y person dynodedig yn ystyried cymysgedd sgiliau ac egwyddorion darparu gofal iechyd darbodus wrth gyfrifo'r rolau sydd eu hangen ar dîm o fewn y drefn sydd ei hangen.

10) **Cymhlethdod anghenion cleifion yn ogystal â'u hanghenion nyrsio meddygol neu lawfeddygol, fel cleifion ag anableddau dysgu/anghenion dysgu ychwanegol**
Mae'n rhaid i'r person dynodedig ystyried anghenion holistig unigol cleifion yn ychwanegol at eu cyflwr meddygol neu lawfeddygol cyfredol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ystyried anghenion gofal ychwanegol penodol cleifion, er enghraifft, anawsterau symudedd, nam gwybyddol neu anawsterau dysgu/anghenion dysgu ychwanegol wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio.

11) **Darparu'r cynnig rhagweithiol o gyflenwi gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.**
Wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio bydd yn ofynnol i'r person dynodedig ddangos bod ystyriaeth benodol wedi'i rhoi i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, fel rhan o ofynion fframwaith strategol Llywodraeth Cymru *Mwy na Geiriau*. Yn benodol, gallai hyn effeithio ar ddefnyddio trefn staff i sicrhau y gall argaeledd sgiliau Cymraeg ymhlith staff ar ddyletswydd ar unrhyw adeg adlewyrchu anghenion rhagweladwy'r cleifion o fewn maes clinigol penodol. Mae angen ystyried darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill hefyd.

Mae rhan o'r dull triongli yn cynnwys ystyried y data sydd ar gael sy'n cysylltu â'r agweddau uchod ar farn broffesiynol. Er enghraifft, cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol, swyddi gwag a chyfraddau salwch, defnydd o staff dros dro, defnydd gwelyau a/neu adborth myfyrwyr.

Beth yw'r dangosyddion ansawdd?

Mae rhan o'r dull trionglog yn cynnwys ystyried y dangosyddion ansawdd hynny sy'n arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs. I leihau baich mesur, dylid defnyddio dangosyddion ansawdd sydd â ffynhonnell ddata sefydledig ac mae'r Ddeddf yn cynghori'r person dynodedig i ystyried y dangosyddion ansawdd canlynol gan y dangoswyd bod gan y rhain gysylltiad â lefelau staffio isel:

- **Briwiau pwyso** – cyfanswm y briwiau pwyso y barnwyd iddynt gael eu datblygu yn yr ysbyty tra'n glaf ar y ward;
- **Camgymeriadau meddyginiaeth** – unrhyw gamgymeriad wrth baratoi, gweinyddu neu hepgor meddyginiaeth gan staff nyrsio (mae hyn yn cynnwys digwyddiadau 'byth' sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth); ac
- **Anafiadau Elifo/Ymdreiddio –** unrhyw anaf elifo/ymdreiddio y mae'r cleifion yn eu dioddef ar y ward.

Yn ogystal â'r dangosyddion ansawdd a restrir uchod, efallai y bydd dangosyddion ansawdd eraill sy'n sensitif i lefel y staff nyrsio yn briodol. Mae'r Canllawiau Statudol yn awgrymu bod: profiad cleifion, anghenion gofal nas diwallwyd, methiant i ymateb i ddirywiad claf; profiad staff, llesiant staff, gallu staff i gymryd gwyliau blynyddol; cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol ac adolygiadau datblygu perfformiad yn gallu cael eu hystyried i gyd fel elfennau perthnasol posibl.

Sut rydw i'n mesur lefelau aciwtedd cleifion?

Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr anghenion cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, diwylliannol a chorfforol yn cael eu hasesu a'u dosbarthu drwy ddefnyddio disgrifyddion Lefelau Gofal Pediatrig Cymru.

Mae Lefelau Gofal Pediatrig Cymru yn cynnwys 5 lefel aciwtedd – o Lefel 1 lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac yn rhagweladwy ac angen gofal nyrsio arferol, hyd at Lefel 5, lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl sy'n gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus 1:1.

Gellir crynhoi Lefelau Gofal Pediatrig Cymru fel a ganlyn:

Lefel 5	**Gofal un-i-un** - mae angen o leiaf goruchwyliaeth nyrsio barhaus un-i-un ar y claf ac arsylwi 24 awr y dydd.
Lefel 4	**Gofal brys** - mae'r claf mewn cyflwr ansefydlog ac anrhagweladwy iawn naill ai'n gysylltiedig â'u prif broblem neu wrth i ffactorau cysylltiedig eraill waethygu.
Lefel 3	**Gofal cymhleth** - gall fod gan y claf nifer o broblemau a nodwyd, y mae rhai ohonynt yn rhyngweithio, gan ei gwneud yn anoddach rhagweld canlyniad unrhyw driniaeth unigol.
Lefel 2	**Llwybrau gofal** - mae gan y claf broblem sydd wedi'i diffinio'n glir ond gall fod nifer fach o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar sut i ddarparu triniaeth.
Lefel 1	**Gofal arferol** – mae gan y claf broblem sydd wedi'i nodi'n glir, heb lawer o ffactorau cymhleth eraill.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar sut i fesur aciwtedd a dibyniaeth cleifion drwy ddefnyddio Lefelau Gofal Pediatrig Cymru yn nogfen Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (rhifyn 1) (atodiad 3).

Cymryd rhan yn yr archwiliad ddwywaith y flwyddyn

At ddibenion yr archwiliad ddwywaith y flwyddyn, rhaid i'r data gael ei gasglu yn ystod misoedd Ionawr a Mehefin am 18:00 bob dydd yn ystod misoedd yr archwiliad fel y nodwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio. Po fwyaf o ddata a gesglir, y mwyaf cadarn a dibynadwy yw'r darlun o lwyth achosion ward.

Rhaid cofnodi data am bob claf 7 diwrnod yr wythnos am y mis calendr llawn ar gyfer cyfnod yr archwiliad aciwtedd.

Gellid dod o hyd i wybodaeth bellach ar sut i fewnbynnu a sicrhau ansawdd y data aciwtedd fel rhan o'r archwiliad ddwywaith y flwyddyn yn y Canllaw 'Sut i' ar gyfer System Monitro Gofal Iechyd (atodiad 4).

Sut mae cyfrifiad lefel y staff nyrsio yn cael ei gofnodi?

Dylai pob bwrdd iechyd ddatblygu systemau i gofnodi'r dystiolaeth a'r rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol.

Mae Atodiad 5 yn darparu rhestr wirio o'r ffactorau y mae'n *rhaid* eu hystyried ac mae atodiad 6 yn darparu templed i gofnodi'r broses gyfrifo a'r broses o wneud penderfyniadau a wnaed yn ystod y broses gyfrifo.

Pryd mae cyfrifo lefel y staff nyrsio yn cael ei wneud?

Mae'r cyfrifiad arferol ddwywaith y flwyddyn o lefel y staff nyrsio yn digwydd tua Mawrth/Ebrill ac Awst/Medi bob blwyddyn. Mae'r amserlen hon yn ystyried y broses o gasglu data aciwtedd ddwywaith y flwyddyn ar draws pob ward pediatrig i gleifion mewnol sy'n digwydd ym mis Ionawr a Mehefin yn ôl cyfarwyddyd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio'r GIG a'r amser mae'n ei gymryd i brosesu a chyhoeddi'r data. Mae'r amserlen ganlynol yn cynnig canllaw i gynorthwyo pob bwrdd iechyd i bennu'r cylch gweithredu blynyddol mewn perthynas â'r cyfrifiadau ddwywaith y flwyddyn a'r gofynion adrodd o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).

Ionawr	- Cynnal archwiliad aciwtedd.	Casglu a monitro data perthnasol yn barhaus sy'n ymwneud â'r dangosyddion ansawdd y cytunwyd arnynt a meini prawf barn broffesiynol. Hefyd, adolygu a chofnodi'n barhaus unrhyw amrywiad o'r rhestrau staff a gynlluniwyd.
Chwefror	- Dilysu a chymeradwyo data archwiliad aciwtedd Ionawr.	
Mawrth	- Data archwiliad aciwtedd Ionawr ar gael i fyrddau iechyd. - Byrddau Iechyd i ddechrau'r broses o ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio drwy ddefnyddio'r dull trionglog.	
Ebrill	- Byrddau Iechyd i orffen lefel y staff nyrsio. - Byrddau Iechyd i fynd â'r adroddiad blynyddol i fwrdd datblygu a/neu bwyllgor y cytunwyd arno.	

	- Byrddau Iechyd i fynd â'r ail-gyfrifiad o lefel y staff nyrsio i fwrdd datblygu a/neu bwyllgor y cytunwyd arno ddwywaith y flwyddyn .	Yn ogystal â'r Bwrdd, dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol (neu Ymddiriedolaeth) dderbyn diweddariad ysgrifenedig o lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol pan fydd newid i ddefnydd / gwasanaeth sydd wedi arwain at newid yn lefel y staff nyrsio, neu os yw'r person dynodedig o'r farn bod angen gwneud hynny. (Gall y diweddariadau gael eu darparu i'r Bwrdd drwy is-bwyllgor ffurfiol a ddirprwywyd).
Mai	- Cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Bwrdd yn ffurfiol (25E) - Diweddariad ffurfiol o ail-gyfrifiad lefel y staff nyrsio yn uniongyrchol i'r Bwrdd neu bwyllgor y cytunwyd arno ddwywaith y flwyddyn.	
Mehefin	- Cynnal archwiliad aciwtedd.	
Gorffennaf	- Dilysu a chymeradwyo data archwiliad aciwtedd Mehefin.	
Awst	- Data archwiliad aciwtedd Mehefin ar gael i fyrddau iechyd. - Byrddau Iechyd i ddechrau'r broses o ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio drwy ddefnyddio'r dull trionglog	
Medi	- Byrddau Iechyd i orffen lefel y staff nyrsio	
Hydref	- Byrddau Iechyd i gyflwyno ail-gyfrifiad dwywaith y flwyddyn o lefel y staff nyrsio i Fwrdd datblygu a/neu bwyllgor y cytunwyd arno.	
hwedd	Cyflwyniad ffurfiol blynyddol gan y person dynodedig o lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol i Fwrdd y bwrdd iechyd (neu Ymddiriedolaeth).	
Rhagfyr		

SYLWER: *Mae'r amserlen yn nodi'r camau i'w cymryd gan bob bwrdd iechyd a bydd yn destun adolygiad.*

Beth yw'r rhesymau dros ystyried ail-gyfrifo Lefel y Staff Nyrsio?

Cytunwyd ar y rhestr ganlynol o ffactorau gan Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan fel rhesymau dros gymell byrddau iechyd i ystyried a ddylid ail-gyfrifo lefelau staff nyrsio y tu allan i'r broses gyfrifo arferol ddwywaith y flwyddyn. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a gellir ystyried ffactorau eraill hefyd:

- Adrodd ar eithriadau gan brif nyrs y ward/prif nyrs;
- Anallu dros gyfnod hir o amser i gynnal a chadw'r rhestr staff a gynlluniwyd;

- Newid pwrpas a/neu broffil ward (e.e. cynnydd mewn gwelyau, newid i'r amgylchedd, newid o orthopaedig i lawdriniaeth gyffredinol);
- Newid proffil claf (e.e. lefelau aciwtedd, arbenigedd clinigol);
- Newid sylweddol yn sgil a/neu brofiad staff nyrsio;
- Pryderon sy'n deillio o'r adolygiad o ddangosyddion ansawdd, cwynion a/neu ddigwyddiadau diogelu;
- Defnydd uchel a/neu gyson o weithwyr banc neu asiantaeth/ staff dros dro;
- Defnydd cyson o brif nyrsys y ward/prif nyrsys o fewn y rhestr staff a gynlluniwyd;
- Digwyddiad/ymchwiliad difrifol;
- Pryderon staff nyrsio a godwyd gan yr Ombwdsman/ Crwner/ AGIC; a
- Profiad/adborth wrth gleifion sy'n gyson negyddol.

Cynnal lefel y staff nyrsio

Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gynnal lefel y staff nyrsio?

Dylai byrddau iechyd sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol ar sail shifft i shifft ac ar sail hirdymor.

Mae camau rhesymol y dylid eu cymryd ar lefel genedlaethol, corfforaethol strategol (Bwrdd Iechyd) a gweithredol i gynnal lefelau staff nyrsio fel a ganlyn:

Camau cenedlaethol

- Rhannu a meincnodi data corfforaethol.

Camau corfforaethol strategol

- Cynllunio'r gweithlu ar gyfer cyflenwad parhaus o staff gofynnol a aseswyd drwy ddefnyddio System Gynllunio Cymru;
- Recriwtio mewn ffordd brydlon ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol;
- Strategaethau cadw staff sy'n cynnwys rhoi ystyriaeth i ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru;
- Strategaethau llesiant yn y gwaith sy'n cefnogi nyrsys i gyflawni eu rolau;
- Sicrhau bod gofynion strategol y Ddeddf wedi'u hymgorffori i broses IMTP/cynllunio blynyddol y sefydliad;
- Polisïau a gweithdrefnau'r gweithlu sy'n cefnogi rheolaeth staff effeithiol;
- Fframwaith rheoli risg sefydliadol cadarn.

Camau gweithredol

- Defnydd o staff dros dro o fanc nyrsio sy'n briodol o'r gymysgedd sgiliau a nodir yn y rhestr staff a gynlluniwyd;
- Defnydd o staff dros dro o asiantaeth nyrsio sy'n briodol i'r gymysgedd sgiliau a nodir yn y rhestr staff a gynlluniwyd;
- Defnydd dros dro o staff o feysydd eraill o fewn y sefydliad;
- Cau gwelyau dros dro;
- Ystyried newidiadau i lwybr y claf.

Caiff ei gydnabod ar adegau, efallai y bydd yn briodol amrywio'r rhestr staff a gynlluniwyd wrth ymateb i asesiad o aciwtedd claf ar draws y bwrdd iechyd. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai prif nyrs y ward/prif nyrs a'r uwch nyrs asesu'r sefyllfa'n barhaus a dylai pob

bwrdd iechyd ddatblygu system i barhau i arfarnu'r person dynodedig yn ffurfiol. Bydd hyn yn galluogi'r person dynodedig i ystyried a oes angen ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio. Yn y sefyllfa hon, dylid gwneud cofnod, ac adolygu'r amgylchiadau.

O dan adran 25A o'r Ddeddf, dylid nodi y rhoddir dyletswydd ar fyrddau iechyd i ddarparu nyrsys digonol i roi amser iddynt ofalu am gleifion yn sensitif lle bynnag y caiff gwasanaethau nyrsio eu darparu neu eu comisiynu. Dylai'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar ddyrannu staff nyrsio ar draws yr holl wasanaethau nyrsio o fewn y sefydliad a rhoi ystyriaeth i anghenion diwylliannol staff (e.e. hyblygrwydd gyda shifftiau yn ystod digwyddiadau crefyddol).

Beth ddylid ei gynnwys yn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd?

Mae Atodiad 7 yn rhoi canllawiau i fyrddau iechyd ar y wybodaeth y gellid ei chynnwys o fewn fframweithiau gweithredu'r sefydliad. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys pob cam rhesymol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol y dylid cyfeirio atynt hefyd ym mholisi uwch-gyfeirio a chynlluniau busnes wrth gefn y Bwrdd.

Pa gofnodion sy'n gysylltiedig â chynnal lefel y staff nyrsio sydd eu hangen?

Dylai pob bwrdd iechyd roi systemau ar waith lle gellir adolygu a chofnodi bob tro y mae nifer y staff nyrsio a ddefnyddiwyd yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd. Dylai'r systemau hyn gynnwys y camau rhesymol a gymerwyd i gynnal lefel y staff nyrsio a mecanwaith i gofnodi'r defnydd o staff dros dro, gan gynnwys staff banc a staff asiantaeth; a'r achlysuron pan fydd staff nyrsio yn cael eu symud dros dro o feysydd/dyletswyddau clinigol eraill o fewn y sefydliad i gefnogi lefel y staff nyrsio o fewn ward.

Ar adegau, gellir amrywio'r rhestr staff a gynlluniwyd yn briodol wrth ymateb i asesiad o aciwtedd claf ar draws y system a barn broffesiynol prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward.

Dylid defnyddio'r cofnod fel rhan o'r dystiolaeth i ategu'r ail-gyfrifiad misol arferol o lefel y staff nyrsio a bydd hefyd yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r angen i ail-gyfrifo lefel y staff nyrsio ar adegau eraill os oes angen. At hynny, bydd y casgliadau sy'n deillio o'r cofnodion hyn yn helpu i lywio adroddiadau i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

Sut bydd staff yn gwybod eu bod yn gwneud yr hyn sydd angen ei wneud i gyfrannu at gynnal lefel y staff nyrsio?

Ar lefel unigolyn, dylai pob nyrs a gofrestrwyd sy'n gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf sicrhau eu bod, o ran y gwaith hwn, yn cynnal gofynion Cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn cofrestredig flaenoriaethu pobl, ymarfer yn effeithiol, cadw diogelwch a hyrwyddo proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth drwy'r amser.

Serch hynny, mae'r canllawiau gweithredol hyn yn ei gwneud yn glir bod y systemau a ddefnyddir i gyfrifo a chynnal lefel y staff nyrsio yn gymhleth ac yn amlweddog. Mae hefyd yn dangos yn glir mai swyddogion a staff ar sawl lefel ym mhob bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am y systemau hyn.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gael systemau ar waith i hysbysu cleifion am lefelau staff nyrsio ym mhob ward. At hynny, cynghorir pob bwrdd iechyd i roi systemau ar waith i hysbysu'r holl staff am y Ddeddf a'r camau y mae'r timau sy'n gyfrifol am wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn eu cymryd i sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal.

Yn ogystal â hynny, caiff pob bwrdd iechyd eu hannog yn benodol i sefydlu systemau i sicrhau bod staff pob ward pediatrig i gleifion mewnol yn cael eu hysbysu, ac yn cael eu helpu i ddeall y gwaith i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r Ddeddf yn fras o fewn y bwrdd iechyd, ac yn benodol o fewn eu ward. Dylai'r systemau hyn gynnwys sut i rannu'r wybodaeth ganlynol:

- Beth mae data Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (archwiliad aciwtedd) yn ei ddangos ynglŷn ag aciwtedd cleifion ar bob ward;
- Beth mae'r data dangosyddion ansawdd yn ei ddangos am ofal sensitif cleifion ym mhob ward; ac
- Unrhyw ddata arall e.e. cyfraddau absenoldeb salwch neu gyfraddau defnyddio nyrsys banc ac asiantaeth a ddefnyddir i lywio barn broffesiynol y person dynodedig.

Bydd angen i hyn egluro beth mae'r data'n ei adlewyrchu am y ward y mae'n cyfeirio ati.

Dylai'r systemau hyn hefyd gynnwys rhoi ystyriaeth i sut bydd gwybodaeth am ba mor dda y mae tîm y ward yn ei wneud wrth gynnal lefel y staff nyrsio yn cael ei rhannu â'r tîm.

Dylid disgrifio systemau unigol byrddau iechyd i gefnogi'r cyfathrebu sy'n cael ei annog uchod o fewn fframwaith gweithredol y bwrdd iechyd.

Gwnaed gwaith cenedlaethol i gefnogi pob bwrdd iechyd i fabwysiadu dull 'Unwaith i Gymru' drwy ddyfeisio taflen wybodaeth sy'n rhestru cwestiynau cyffredin i staff (Atodiad 8).

Beth sy'n digwydd os nad yw lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?

Byrddau iechyd ar lefel weithredol sy'n atebol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Ystyrir unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio o dan y *Trefniadau Ymyrryd ac Uwch-Gyfeirio ar y Cyd* sydd wedi bod ar waith ers 2014. O dan y trefniadau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod sefyllfa gyffredinol pob bwrdd /ymddiriedolaeth iechyd. Caiff ystod eang o wybodaeth a chudd-wybodaeth eu hystyried i gynghori ar statws uwch-gyfeirio, unrhyw broblemau a sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn effeithiol. Byddai peidio â chydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei ystyried o dan y trefniadau hyn.

Sut rydym yn hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio?

Yn unol â gofynion y Ddeddf a'r canllawiau statudol, mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio drwy arddangos lefel y staff nyrsio ar gyfer y ward a dylai hefyd hysbysu cleifion o'r dyddiad y cyflwynwyd y lefel i'w Bwrdd.

Gwnaed gwaith cenedlaethol i ddatblygu templed (Atodiad 9) a fyddai, os caiff ei ddefnyddio i arddangos y wybodaeth sy'n benodol i bob ward pediatrig i gleifion mewnol, yn galluogi pob bwrdd iechyd i fodloni gofynion paragraffau 20-25 o'r canllawiau statudol. Disgwylir i bob bwrdd iechyd benderfynu sut bydd y wybodaeth a ddangosir ar y templed yn cael ei diweddaru'n lleol a byddai'n briodol i'r broses y cytunwyd arni gael ei chynnwys yn y fframwaith gweithredu. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i gleifion hefyd ar gael yn Gymraeg i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Gwnaed gwaith cenedlaethol hefyd i gefnogi pob bwrdd iechyd i fabwysiadu dull 'Unwaith i Gymru' drwy ddyfeisio taflen wybodaeth sy'n rhestru cwestiynau cyffredin i helpu staff i roi gwybodaeth gywir i gleifion a'u rhieni/gofalwyr am y Ddeddf (Atodiad 10 ac 11).

Efallai y bydd rhai wardiau pediatrig i gleifion mewnol yn dewis darparu gwybodaeth ychwanegol am lefel y staff nyrsio yn ychwanegol at y gofynion gwybodaeth craidd a bennir yn y Ddeddf a'r Canllawiau Statudol. Gallai hyn fod yn arbennig o briodol, er enghraifft, pan fydd o gymorth i gleifion ac ymwelwyr i ddeall natur aml-ddisgyblaethol ehangach y tîm gofal iechyd.

Atodiadau

Atodiad 1: Canllawiau statudol (Fersiwn 2)



Atodiad 2: Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

CYNNWYS

1 Lefelau staff nyrsio
2 Cychwyn
3 Enw byr

Atodiad 3: Lefelau Gofal Pediatrig Cymru (Rhifyn 1)

Lefelau Gofal Pediatrig Cymru Rhifyn 1

Atodiad 4: System Monitro Gofal Iechyd - Canllaw 'Sut i'

Lefelau Gofal Pediatrig Cymru

Canllaw i Ddefnyddwyr ar System Fonitro Gofal Iechyd



Atodiad 5: Ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses gyfrifo

Cyffredinol

- Nodi wardiau
- Cyfnod a archwiliwyd
- Naratif gweithredol
- Cymysgedd llwyth achosion
- Rhestr staff gyfredol – oriau targed y dydd, defnydd, trefn WTE
- Cyfradd gyflawni rhestr staff ddyddiol
- Cyflawniad cyffredinol

Aciwtedd

- Aciwtedd cleifion sy'n defnyddio adnodd lefelau gofal pediatrig Cymru
- Oriau gofal y dydd fesul claf (cyfartaledd)

Dangosyddion Ansawdd (cyfeiriwch at dudalen 18)

- Camgymeriadau meddyginiaeth
- Briwiau pwyso
- Anafiadau elifo/ymdreiddio

Barn Broffesiynol

- Llif cleifion – disgrifiad cyffredinol o'r gweithgaredd, gan gynnwys cleifion mewnol, asesiad, hebrwng, mynychwyr ward etc.
- Amgylchedd – nifer y gwelyau, ciwbiclau, cilfannau, cynllun cyffredinol, ac offer
- Cymysgedd o achosion ac achosion arbenigol – naratif cyffredinol i ddisgrifio'r arbenigedd a llwyth achosion clinigol
- Pwysau gweithredol - disgrifiad cyffredinol o bwysau yn ystod y cyfnod archwilio, newidiadau i'r llwyth gwaith, cleifion arwyddocaol e.e. anghenion clinigol, cymdeithasol, diwylliannol unigryw
- Llwyth gwaith gweinyddol
- Cymorth i fyfyrwyr
- Cefnogaeth sy'n ofynnol gan staff sydd newydd gymhwyso neu staff sydd angen cymorth ychwanegol
- Mynediad i'r Tîm Aml-ddisgyblaethol
- Cymysgedd sgiliau staff - cymwysterau, cymwyseddau, sgiliau a phrofiad nyrsys sy'n darparu gofal i gleifion
- Trosiant staff – swyddi gwag
- Defnydd o staff ychwanegol - yr effaith ar lefel y staff nyrsio wrth ddefnyddio staff dros dro
- Hyfforddi a datblygu – CPD, gofynion hyfforddi gorfodol a galluogi staff nyrsio i gael yr amser i dderbyn yr hyfforddiant priodol
- Anghenion ieithyddol cleifion – gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg.

Crynodeb

Argymhellion i'w hystyried:

- Unrhyw ddeunyddiau cyfeirio gan gynnwys gofynion technegol neu reoleiddiol sy'n ymwneud ag arbenigedd a lleoli staff
- Yr angen am gynllun gweithredu – amlinellu disgrifiad o'r cynllun a chyfeiriad at y ddogfen ar wahân (rhan o'r dystiolaeth)
- Rhestr staff ddiwygiedig – oriau targed y dydd
- Cyfranogiad a chytundeb yn y broses gyfrifo – Prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward, uwch nyrs, person dynodedig
- Dyddiad y gwnaed y cyfrifiad gan y person dynodedig
- Dyddiad adolygu - cyfnodau archwilio cenedlaethol fel arfer neu gallai fod yn gynt pe bai materion yn cael eu nodi

Atodiad 6: Cofnod o ddull trionglog o adolygu lefel y staff nyrsio – templed cyfrifo



Atodiad 7: Gofynion o fewn y Fframwaith Gweithredu

Pwrpas y fframwaith hwn yw: cefnogi'r broses o gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio; amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r gweithwyr proffesiynol allweddol; a nodi'r camau sydd i'w cymryd i adolygu, cofnodi, adrodd ac uwch-gyfeirio pan nad yw lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal.

Gwybodaeth
Dyddiad cynhyrchu a chymeradwyo'r ddogfen
Dyddiad / pa mor aml bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu
Pwrpas y ddogfen
Cyfeiriad at y gweithwyr proffesiynol a gwmpesir gan y ddogfen (Gweithlu, Gweithrediadau a Chynllunio, nyrsio, cyllid), eu rolau a'u cyfrifoldebau
Proses i gyfrifo lefel y staff nyrsio (triongli)
Systemau i adolygu a chofnodi unrhyw wyro wrth y rhestr staff a gynlluniwyd
Camau i gymryd pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio (gan gynnwys camau gweithredol, strategol a chenedlaethol)
Camau i'w cymryd, a chan bwy, i sicrhau bod pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i gynnal lefel y staff nyrsio yn yr hirdymor a fesul shifft
Cofnodi ac uwch-gyfeirio pryderon pan na ellir cynnal lefel y staff nyrsio
Cyfeiriad at ddogfennau allweddol (Canllawiau Statudol, Canllawiau Gweithredol)
Camau i'w cymryd o dan adran 25A
Polisi uwch-gyfeirio
Fframwaith gweithredol wedi'i gynnwys ym mholisi uwch-gyfeirio a chynlluniau busnes wrth gefn y Bwrdd
Trefniadau i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

Atodiad 8: Cwestiynau cyffredin i staff mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol

Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi fel aelod o staff ar ward pediatrig i gleifion mewnol?

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Daeth Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i rym ym mis Mawrth 2016. Ar y 1af o Hydref 2021, bydd ail ddyletswydd y Ddeddf yn cael ei hymestyn i wardiau pediatrig i gleifion mewnol. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan fyrddau iechyd:

- dyletswydd gyfreithiol i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad;
- dyletswydd gyfreithiol i gyfrifo a chynnal lefel briodol o staff nyrsio mewn wardiau pediatrig i gleifion mewnol; a
- dyletswydd gyfreithiol i adrodd ar gydymffurfiaeth o ran gofynion staffio a chymryd camau os nad yw lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal.

Beth mae lefel y staff nyrsio yn ei olygu?

Lefel y staff nyrsio yw nifer y staff sy'n ofynnol gan ward i alluogi'r tîm i ddarparu gofal i gleifion mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i holl anghenion nyrsio holistig cleifion. Mae hyn yn cynnwys y rhestr staff a gynlluniwyd a'r drefn sydd ei hangen.

Sut penderfynir ar lefel y staff nyrsio ar gyfer ward?

Yng Nghymru, defnyddiwn nifer o adnoddau i asesu beth ddylai lefel y staff nyrsio fod mewn wardiau gwahanol.

Mae lefel y staff nyrsio yn amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrsio sydd ei angen ar y cleifion hynny. Er enghraifft: efallai y bydd gan wardiau llawfeddygol fwy o gleifion ar y ward yn cael llawdriniaeth rhwng dydd Llun a dydd Gwener, felly mae mwy o staff ar ddyletswydd yn ystod yr wythnos o'i gymharu â'r penwythnos; neu efallai y bydd gan rai wardiau fwy o staff ar ddyletswydd ar ddiwrnodau pan fydd meddyg ymgynghorol yn mynd o amgylch y ward.

Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gyfrifo nifer y nyrsys sydd ei angen i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf drwy ddefnyddio dull trionglog sy'n dod â thair ffynhonnell o wybodaeth at ei gilydd. Yng Nghymru, gwnawn hynny drwy:



- Defnyddio adnodd o'r enw "Lefelau Gofal Pediatrig Cymru", sy'n cynnwys 5 lefel aciwtedd – o Lefel 1 lle mae cyflwr y claf yn sefydlog ac yn rhagweladwy ac angen

gofal nyrsio arferol, hyd at Lefel 5, lle mae'r claf yn ansefydlog iawn ac mewn perygl sy'n gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus 1:1. Y prif nyrs sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion gofal cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol a chorfforol yn cael eu hasesu a'u dosbarthu drwy ddefnyddio'r disgrifyddion yn Lefelau Gofal Pediatrig Cymru;

- Edrych ar ddangosyddion ansawdd sy'n arbennig o sensitif i ofal a ddarperir gan nyrs. Dylai gynnwys: anafiadau elifo/ymdreiddio; briwiau pwyso a ddatblygwyd yn yr ysbyty; camgymeriadau meddyginiaeth; a phrofiad cleifion a staff. At hynny, gellir ystyried unrhyw ddangosyddion ansawdd eraill yr ystyrir yn briodol ar gyfer ward; a
- Cymhwyso barn broffesiynol uwch nyrsys sy'n adnabod y wardiau a lefel anghenion cleifion. Rydym yn ystyried nifer y nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd ar bob ward yn ogystal â lefel y sgiliau nyrsio; cymwyseddau, a phrofiad y nyrsys; effaith staffio dros dro; trosiant a defnydd gwelyau yn gyffredinol; cyflwr ffisegol a chynllun y ward; gofynion myfyrwyr a dysgwyr; unrhyw swyddogaethau gweinyddol a wneir gan y tîm; cymhlethdod anghenion gofal gan gynnwys anghenion diwylliannol a'r ymwneud amlddisgyblaethol mewn gofal; a darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pa mor aml y bydd lefel y staff nyrsio yn cael ei hadolygu?

Bydd pob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yn adolygu lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward:

- bob chwe mis;
- os oes unrhyw beth yn newid ar y ward, er enghraifft, os oes newid yn y grŵp o gleifion sy'n derbyn gofal ar y ward neu nifer y gwelyau a ddefnyddir ar y ward; neu
- os yw'r tîm nyrsio yn meddwl bod angen cynnal adolygiad am unrhyw reswm.

Mae lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol, a darperir diweddariad ysgrifenedig unrhyw bryd pan fernir bod angen newid lefel y staff nyrsio am unrhyw reswm.

Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth yw lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward?

Yn y pen draw, y person dynodedig (y Cyfarwyddwr Nyrsio fel arfer) sy'n gwneud y penderfyniad ar beth yw lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward ar ran y bwrdd iechyd, ond gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am y ward, gan gynnwys nyrsys y ward a phrif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward.

Sut mae byrddau iechyd yn sicrhau bod lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?

Bydd y prif nyrs yn sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu beth ddylai lefel y staff nyrsio fod ar gyfer pob dydd ar y ward honno a byddant yn hysbysu'r uwch nyrs lle bo bylchau.

Mae gwybodaeth am nifer y nyrsys a'r staff gofal a ddylai fod yn gweithio ar bob shifft yn cael ei harddangos ar bob ward.

Mae'r tîm nyrsio yn adolygu ac yn cofnodi'r amseroedd roedd nifer y nyrsys ar ddyletswydd mewn gwirionedd yn amrywio o lefel y staff nyrsio a pha gamau a gymerwyd i ymateb i hyn. Bydd y tîm nyrsio hefyd yn ystyried os yw peidio â chynnal lefel y staff nyrsio wedi cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarperir i gleifion ar y ward ar y pryd.

Pan fydd digwyddiadau a chwynion am y gofal a ddarperir gan nyrs yn cael eu hadrodd drwy systemau adrodd digwyddiadau'r byrddau iechyd, ystyrir a oedd peidio â chynnal lefel y staff nyrsio wedi cyfrannu at y digwyddiad/cwynion.

Beth sy'n digwydd ar y ward pan fydd bwlch yn y staffio?

Dyma'r adegau pan fydd y rhestr ddyletswydd yn amrywio o'r rhestr staff a gynlluniwyd fel y nodir yn lefel y staff nyrsio oherwydd salwch annisgwyl ymhlith staff neu resymau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth.

Dylai byrddau/ymddiriedolaethau iechyd sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i gynnal lefel y staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol o shifft i shifft ac yn yr hirdymor.

Ar adegau, gall y rhestr staff a gynlluniwyd gael ei amrywio'n briodol wrth ymateb i asesiad o aciwtedd claf ar draws y system a barn broffesiynol y strwythur rheoli nyrsys. Yn y byr dymor, efallai y bydd rhaid i nyrsys ar y ward flaenoriaethu gofal cleifion i gynnal diogelwch cleifion.

Beth mae'n ei olygu os oes mwy o staff nyrsio na lefel y staff nyrsio sydd ei angen ar ddyletswydd ar shifft?

Mae'r brif nyrs, prif nyrs y ward/prif nyrs/rheolwr y ward ac uwch nyrs yn asesu anghenion y cleifion ar y ward yn barhaus, a gall mwy o staff fod ar ddyletswydd ar y ward oherwydd cynnydd yn anghenion gofal cleifion, er enghraifft, lle bo angen gofal nyrsio un-i-un ar glaf, lle bo grŵp o gleifion angen mwy o gymorth neu lle bo claf yn ddifrifol sâl.

Beth sy'n digwydd os nad yw lefel y staff nyrsio yn cael ei chynnal?

Y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd ar lefel weithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Ddeddf. Byddai peidio â chydymffurfio â darn o ddeddfwriaeth fel Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn cael ei ystyried o dan Drefniadau Ymyrryd ac Uwch-gyfeirio ar y Cyd sydd wedi bod ar waith ers 2014.

Ble alla i gael mwy o wybodaeth?

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn Fframwaith Gweithredu'r byrddau iechyd ac o fewn y Canllawiau Gweithredol a'r Canllawiau Statudol sydd ar gael ar wefannau byrddau iechyd neu drwy wefan AaGIC. O fewn pob bwrdd iechyd, ceir arweinydd gweithredol a fydd yn rhoi arweiniad a chefnogaeth i staff.

Atodiad 9: Templed i hysbysu cleifion o lefel y staff nyrsio

GIG CYMRU NHS WALES | Staff Nyrsio Nurse Staffing

Enw Ward

Y nifer o nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd (GCGI) sydd eu hangen i ofalu amdanoch bob bore, prynhawn a'r nos

		Llun	Maw	Mer	Iau	Gwe	Sad	Sul
Bore	Nyrs							
	GCGI							
Prynhawn	Nyrs							
	GCGI							
Nos	Nyrs							
	GCGI							

Y mae angen i'r ysbyty sicrhau eich bod yn ymwybodol sawl nyrs/ GCGI sydd eu hangen yn rhan o'r tîm i ofalu amdanoch a'r dyddiad pan bennwyd y nifer hwn.

Y nifer cyflawn o Nyrsys/ GCGI sydd eu hangen ar dîm y ward

Dyddiad pan bennwyd y nifer hwn o nyrsys/ GCGI angenrheidiol:

Yn ogystal â'r nyrsys a'r GCGI byddwch, o bosib, yn gweld staff gofal iechyd eraill ar yr ward a fydd yn gweithio gyda'r nyrsys i ofalu amdanoch. Er enghraifft, arbenigwr chwarae neu ffisiotherapydd.

Pe dymunech wybod mwy, gallwch ofyn i'r nyrs sy'n gofalu amdanoch.

Atodiad 10: Cwestiynau cyffredin i Blant a Phobl Ifanc



Atodiad 11: Cwestiynau cyffredin i Rieni a Gofalwyr

Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i mi fel rhiant / gofalwr? Cwestiynau Cyffredin

Beth yw Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Daeth Deddf Lefel Staffio Nyrsio (Cymru) 2016 yn gyfraith ym mis Mawrth 2016. Ar 1 Hydref 2021, bydd ail ddyletswydd y Ddeddf yn cael ei ymestyn i wardiau cleifion mewnol pediatrig. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan fyrddau iechyd / ymddiriedolaeth:

- Ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad;
- Dyletswydd gyfreithiol i gyfrifo a chynnal y lefel staff nyrsio briodol mewn wardiau cleifion mewnol pediatreg; a
- Dyletswydd gyfreithiol i adrodd ar gydymffurfiad â gofynion staffio a gweithredu os na chynhelir lefelau staff nyrsio.

Beth mae lefel staff nyrsio yn ei olygu?

Y lefel staff nyrsio yw nifer y staff sy'n ofynnol gan ward i alluogi'r tîm i ddarparu gofal i'r cleifion mewn ffordd sy'n ystyried holl anghenion nyrsio'r cleifion.

Sut y penderfynir ar lefel staff nyrsio ward?

Yng Nghymru rydym yn defnyddio nifer o offer i asesu beth ddylai lefel staff nyrsio fod ar gyfer gwahanol wardiau.
Mae lefel staff nyrsio yn amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrsio sydd ei angen ar y cleifion hynny. Mae gan ofal dwys, er enghraifft, gymhareb nyrs i glaf uwch na ward feddygol neu lawfeddygol.
Ar rai wardiau gall lefel staff y nyrsio amrywio o ddydd i ddydd yn dibynnu ar sut mae'r ward yn gweithio, er enghraifft, mae gan rai wardiau llawfeddygol fwy o gleifion ar y ward yn cael llawdriniaeth rhwng dydd Llun a dydd Gwener o gymharu â dydd Sadwrn a dydd Sul felly mae mwy o staff ar ddyletswydd. yn ystod yr wythnos o'i gymharu â'r penwythnos.
Rydym yn cymryd gwybodaeth o wahanol ffynonellau ac mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i benderfynu beth ddylai'r lefel staff nyrsio fod. Yng Nghymru mae'r wybodaeth a ddefnyddiwn yn cynnwys:

- Defnyddio teclyn o'r enw “Lefel Gofal Paediatreg Cymru”; edrychwn ar ba mor sâl neu ddibynnol yw'r cleifion ar y ward benodol honno a lefel y gofal sydd ei angen arnynt.
- Edrych ar y wybodaeth sydd gennym eisoes am ddiogelwch ac ansawdd pob gwasanaeth, a phrofiad pobl yr adroddwyd amdano.
- Cymhwyso barn broffesiynol yr uwch nyrsys sy'n adnabod y wardiau a lefel angen y cleifion. Rydym yn monitro nid yn unig nifer y nyrsys cofrestredig sydd ar ddyletswydd ar bob ward ond hefyd lefel y sgil nyrsio sy'n ofynnol, yn ogystal â staff hyfforddedig eraill sy'n darparu gofal i gleifion, er enghraifft, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol.

Pa mor aml y bydd y lefel staff nyrsio yn cael ei hadolygu?

Bydd pob bwrdd iechyd yn edrych ar y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward:

- Bob chwe mis;

- os bydd rhywbeth yn newid ar y ward, er enghraifft, os oes newid yn y grŵp o gleifion sy'n derbyn gofal ar y ward neu nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio ar y ward; neu
- Os yw'r tîm nyrsio o'r farn bod angen cynnal adolygiad am unrhyw reswm.

Cyflwynir lefel staff nyrsio pob ward i'r Bwrdd bob blwyddyn.

Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth ddylai lefel staff nyrsio pob ward fod?

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio sy'n gwneud y penderfyniad ar lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward yn y pen draw ar ran y bwrdd iechyd, ond gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am y ward, gan gynnwys y nyrsys ar y ward a'r prif nyrs / nyrs â gofal / rheolwr.

Sut mae byrddau iechyd yn sicrhau bod lefel staff nyrsio ward yn cael ei chynnal?

Bydd prif nyrs y ward / nyrs â gofal / rheolwr ward yn sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu'r lefel staff nyrsio ddylai fod ar gyfer pob diwrnod ar gyfer y ward honno a byddant yn hysbysu'r uwch nyrs pan fydd bylchau.
Mae gwybodaeth am nifer y nyrsys a'r staff gofal a ddylai fod yn gweithio ar bob shifft yn cael ei harddangos ar bob ward.
Mae'r tîm nyrsio yn adolygu ac yn cofnodi'r amseroedd yr oedd nifer y nyrsys ar ddyletswydd mewn gwirionedd yn amrywio o'r lefel staff nyrsio a pha gamau a gymerwyd gennym mewn ymateb i hyn. Bydd y tîm nyrsio hefyd yn ystyried a yw peidio â chynnal y lefel staff nyrsio wedi cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarperir i'r cleifion ar y ward ar y pryd.

Beth sy'n digwydd ar y ward pan fydd bwlch mewn staffio?

Mae yna adegau pan all y lefel staff nyrsio ar ward fod yn is na'r hyn a gynlluniwyd gennym oherwydd salwch staff annisgwyl neu resymau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth. Pan fydd hyn yn digwydd bydd y nyrs â gofal yn ceisio cwmpasu'r newid hwn trwy ofyn i staff newid eu shifft, lle bo hynny'n bosibl. Os oes bwlch o hyd, bydd y nyrs â gofal yn uwch gyfeirio hyn i'r uwch nyrs ar ddyletswydd a fydd yn ystyried cynnig oriau ychwanegol neu oramser i staff lenwi'r bwlch ac a fydd yn ystyried y posibilrwydd o symud staff o gwmpas rhwng wardiau ac adrannau. Mae uwch nyrs ar ddyletswydd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar bob safle ysbyty y mae ei rôl yn cynnwys rheoli staff nyrsio a sicrhau bod y lefelau staff nyrsio yn cael eu cynnal. Bydd yr uwch nyrs hefyd yn ystyried a oes angen i ni ddefnyddio staff o'n banc nyrsys ysbyty neu o asiantaeth nyrsio. Os yw'r bwlch mewn staff yn dal heb ei ddatrys, bydd yr uwch nyrs yn trosglwyddo hyn i'r uwch reolwr nyrsio ac yn trafod pa gamau pellach y mae angen eu hystyried.
Yn y tymor byr, efallai y bydd yn rhaid i nyrsys ar y ward weithio mewn ffordd wahanol a chanolbwyntio ar ofal hanfodol i gynnal diogelwch cleifion.

Beth mae'n ei olygu os oes mwy o staff nag y mae'r lefel staff nyrsio yn gofyn amdanynt ar ddyletswydd ar shifft?

Mae prif nyrs y ward / nyrs â gofal / rheolwr ward ac uwch nyrs yn asesu anghenion y cleifion ar y ward yn barhaus, ac efallai y bydd mwy o staff ar ddyletswydd yn y ward oherwydd cynnydd yn anghenion gofal cleifion, er enghraifft, lle gallai fod angen claf gofal nyrsio un i un neu lle mae claf wedi mynd yn fwy sâl. Ar yr achlysuron hyn, a lle bo angen,

gellir gofyn i staff weithio oriau ychwanegol neu oramser i lenwi'r bwlch, neu fel arall gellir gofyn am staff dros dro.

I gael mwy o wybodaeth am lefelau staff yn ein hysbytai neu os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am lefel staff nyrsio neu'r gofal rydych chi'n ei dderbyn ar y ward yna siaradwch â'r prif nyrs ar y ward / nyrs â gofal / rheolwr ward

Hawdd i'w ddarllen

Ynglŷn â lefelau staff nyrsio

Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi?

Dyma fersiwn hawdd i'w darllen gan GIG Cymru o **'Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i fi ar ward pediatrig i gleifion mewnol? – Cwestiynau Cyffredin'**

Ionawr 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd i'w darllen yw hon. Mae'r geiriau a'u hystyr yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae'n golygu **GIG Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Cafodd y ddogfen hon ei chreu fel fersiwn hawdd gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** drwy ddefnyddio **symbolau lluniau**.

Beth mae lefelau staff nyrsio yn ei olygu?

Mae **lefelau staff nyrsio** yn golygu nifer y nyrsys sydd eu hangen i ofalu am gleifion yn iawn ac yn ddiogel.

Efallai y byddwch yn gweld staff gofal iechyd eraill yn gweithio yn y wardiau. Er enghraifft, ffisiotherapyddion sy'n helpu pobl i symud o gwmpas.

Beth yw Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Daeth **Deddf Lefelau Staff Nyrsio** i rym yng Nghymru ym mis Mawrth 2016.

Mae'n golygu bod **rhaid** i fyrddau iechyd wneud yn siŵr bod digon o nyrsys ar wardiau pediatrig i gleifion mewnol er mwyn gofalu am gleifion yn ddiogel.

Sut mae penderfynu ar lefelau staff nyrsio pob ward?

Efallai y bydd lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward yn wahanol. Mae'n dibynnu ar nifer y cleifion ar y ward.

Mae hefyd yn dibynnu ar anghenion y cleifion. Er enghraifft, pa fath o ofal nyrsio sydd ei angen arnyn nhw.

I'n helpu i benderfynu faint o nyrsys sydd eu hangen ar gyfer pob ward, rydym yn edrych ar 3 peth:

- beth yw barn y nyrsys
- pa mor sâl yw'r cleifion a faint o ofal sydd ei angen arnyn nhw
- ansawdd a diogelwch y gofal ym mhob ward.

Pwy sy'n penderfynu ar lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward?

Y **Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio** sy'n gyfrifol am benderfynu ar lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward.

Maen nhw'n siarad gyda'r tîm nyrsio ar gyfer pob ward cyn gwneud penderfyniad.

Pa mor aml y mae lefelau staff nyrsio yn cael eu gwirio?

Dylid gwirio lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward pediatrig i gleifion mewnol:

- bob **6 mis**



- pan fydd rhywbeth yn newid ar y ward. Er enghraifft, os yw nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio ar y ward yn newid

- os yw'r tîm nyrsio yn credu bod angen gwirio'r lefelau unwaith eto am ryw reswm.

Sut bydd wardiau yn gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw y lefelau staff nyrsio cywir?

Bydd y **brif nyrs** yn gwneud cynllun staff drwy edrych ar faint o staff nyrsio sydd angen bod ar y ward.

Os nad oes digon o nyrsys, bydd y brif nyrs yn siarad gyda'r **uwch nyrs.** Efallai y byddan nhw'n talu am nyrsys ychwanegol i weithio yn y ward er mwyn gwneud yn siŵr bod yna ddigon.

Sut mae cael gwybod mwy?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am lefelau staff nyrsio ar y ward hon, siaradwch â:

- Rheolwr y Ward
- Prif Nyrs y Ward neu
- Y Prif Nyrs